NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ffeibrosis systig: diagnosis a rheoli

25 Hydref 2017

## Ffeibrosis systig: y gofal y dylech ei ddisgwyl

Mae ffeibrosis systig yn gyflwr etifeddol sy'n achosi croniad o fwcws trwchus yn yr ysgyfaint a rhannau eraill o'r corff. Mae'n un o'r cyflyrau genetig mwyaf cyffredin, sy'n effeithio ar bron 11,000 o bobl yn y DU. Mae pobl sydd â ffeibrosis systig yn fwy tueddol o gael problemau treulio a heintiau ar yr ysgyfaint. Gydag amser, mae'r ysgyfaint yn cael ei niweidio a gall stopio gweithio'n iawn. Nid oes gwellhad ar gyfer ffeibrosis systig, ond gall pobl reoli eu symptomau drwy ddefnyddio patrwm dyddiol o driniaethau sy'n cyfuno meddyginiaethau, ymarfer corff a ffisiotherapi.

Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl sydd â ffeibrosis systig a'u teuluoedd drwy wneud y canlynol:

- helpu meddygon i benderfynu ar y ffordd orau o drin heintiau gwahanol ar yr ysgyfaint – weithiau nid yw gwrthfiotigau yn helpu a dylai eich meddyg esbonio pam
- helpu eich tîm gofal i'ch diogelu rhag haint – er enghraifft, dylent amseru eich archwiliadau fel eich bod yn osgoi cwrdd â phobl eraill sydd â ffeibrosis systig a allai drosglwyddo haint
- gwneud yn siŵr eich bod yn cael cynnig y profion cywir yn eich archwiliadau.

### Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes agweddau ar eich triniaeth neu ofal sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd triniaethau gwahanol yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd a phethau rydych yn gobeithio eu gwneud?
- Pa gymorth a chyngor gan eich tîm gofal fydd yn eich helpu i aros yn heini ac yn iach ac osgoi heintiau?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Darllenwch newyddion NICE i ddysgu sut y bydd y canllaw hwn o gymorth.

Dilynwch ni ar Twitter a Facebook.

**Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Mae gan NHS Choices ragor o wybodaeth am ffeibrosis systig.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Yr Ymddiriedolaeth Ffeibrosis Systig
  www.cysticfibrosis.org.uk
  0300 373 1000
- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
  www.blf.org.uk
  03000 030 555

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae ffeibrosis systig wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

978-1-4731-2709-8

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights